

Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd 2016/17

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngorydd: Aled Morris Jones

Parti: Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Ward: Twrcelyn

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rwyf wedi bod yn Aelod o Bwyllgor Gwaith y Cyngor ac yn Ddeilydd Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai.

Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	¹ Ffigyrau Presenoldeb
Cyngor (gan gynnwys un Arbennig)	8 (89%)
Pwyllgor Gwaith	14 (100%)
Is-bwyllgor Indemniadau	Dim cyfarfodydd
Panel Rhiantu Corfforaethol	2 (50%)
Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.	
Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel ddeilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrrff allanol, er enghraifft.	

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 1 cyfarfod (25%). Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth a wedi mynychu'r 1 cyfarfod a drefnwyd.

Rwyf yn Bencampwr y Cyngor o ran y Lluoedd Arfog, Cydraddoldeb ac yn Aelod Arweiniol ar gyfer Diogelu Oedolion .

Fel aelod o'r Pwyllgor Gwaith gyda chyfrifoldeb dros Wasanaethau Cymdeithasol a Thai, rwyf yn falch y byddwn yn edrych i adeiladu tai Cyngor ar Ynys Môn yn y dyfodol agos. Hefyd, adnoddau ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Plant.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrrff allanol canlynol:		
Grŵp Cyswllt Prosiect Niwclear Horizon		
Grŵp Cydranddeiliaid Safle Wylfa		

¹ Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwyf wedi bod yn aelod o Gyngor Cymuned Rhosybol ers 1986. Mae etholwyr wedi cysylltu gyda mi ar e-bost, dros y ffon neu yn bersonol ar wahanol faterion. Rwyf wedi bod yn mynychu cyfarfodydd misol o Gyngor Cymuned Rhosybol (fel Aelod) hefyd cyfarfodydd o Gyngor Cymuned Llanbadrig, Llaneilian a Chyngor Tref Amlwch. Rwyf yn llywodraethwr yn ysgolion Rhosybol a Penysarn.

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf wedi cefnogi a bod yn rhan o nifer o gynlluniau gan gynnwys man croesi diogel wrth ymyl Ysgol Gynradd Rhosybol, sicrhau rhagor o wasanaeth gan wardeniaid traeth yn Nhraeth Llaneilian a goleuadau stryd ym Mhorth Amlwch. Hefyd, gwaith hyrwyddo o ran cynllun treftadaeth Cemaes a'r cysylltiad gyda Llysoedd y Tywysogion.

Rwyf wedi bod yn pwysu ar Horizon i sicrhau gwelliannau i'r ffordd rhwng Cemaes ag Amlwch a hynny o safbwynt datblygiad arfaethedig Wylfa Newydd.

4 - Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

Gwybodaeth Comisiwn Pobl Hŷn Cymru	11/05/2017
Sesiynau Briffio Aelodau 15 allan o 23 = 65%	Ebrill 2016 – Mawrth 2017

5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwyf yn parhau i fod â diddordeb brwd yn ddatblygiad cynllun Wylfa Newydd a'i effaith uniongyrchol ar ward Twrcelyn a'i etholwyr.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=18&LLL=1>